**Dyddiad cyhoeddi** Awst 2006

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin cryndod a dystonia (ond nid y math a welir gyda chlefyd Parkinson) gydag ysgogiad dwfn yr ymennydd

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio ysgogiad dwfn yr ymennydd i drin pobl sydd â chryndod a dystonia (heblaw am y math sy'n gysylltiedig â chlefyd Parkinson) yn y GIG yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol). Mae NICE wedi cynhyrchu arweiniad ar wahân ar y defnydd o ysgogiad dwfn yr ymennydd mewn pobl sydd â chlefyd Parkinson (gweler www.nice.org.uk/IPG019).

Mae NICE wedi cynhyrchu'r canllawiau hwn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn elwa fwyaf o'i chael.

*Mae 'canllawiau ymyriad' yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd neu sy'n defnyddio ymbelydredd electromagnetig (megis pelydrau X, laserau a phelydrau gamma).*

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio cryndod na dystonia na'r triniaethau'n fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi'r wybodaeth lawn a chyngor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau efallai y byddwch am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad.

Mae arweiniad ymyriadau yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Nid yw'r arweiniad yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag ariannu gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynrychioli gwerth am arian i'r GIG.

Corporate member of Plain English Campaign. Committed to clearer communication. 197

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â chryndod neu ddystonia, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

Dylai tîm o arbenigwyr gydweithio i sicrhau y dewisir y cleifion cywir ar gyfer y driniaeth hon ac y gofelir amdanynt yn briodol.

### Sylwadau eraill gan NICE

Gellir cynnal ysgogiad dwfn yr ymennydd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gellir ei ddefnyddio gyda neu ar ôl mathau eraill o lawdriniaeth neu driniaethau cyffuriau.

Gellir effeithio ar lwyddiant y driniaeth gan y math o adferiad a gaiff y claf.

## Ysgogiad dwfn yr ymennydd

*Efallai nad dyma yw'r unig driniaethau posibl ar gyfer cryndod a dystonia. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi p'un a yw'n addas i chi ac am unrhyw ddewisiadau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n llawn yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae cryndod a dystonia yn symptomau o glefydau niwrolegol, megis cryndod hanfodol a sglerosis ymledol.

Mae cryndod yn symudiad ailadroddus rhythmig na ellir ei reoli. Gan amlaf mae'n effeithio ar y breichiau. Gyda dystonia, mae cyhyrau sydd fel arfer yn gweithio bob yn ail yn cyfangu ar yr un pryd gan achosi gwayw.

Gall triniaeth o gryndod gydag adferiad neu gyffuriau fod yn llwyddiannus os caiff ei dechrau'n gynnar. Fodd bynnag, nid yw'n helpu'r claf yn ei fywyd

beunyddiol bob amser. Gellir defnyddio llawdriniaeth os nad yw cyffuriau'n gweithio.

*Gallwch ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Mae dystonia yn anos i'w drin. Gall triniaeth leihau'r symptomau, ond nid yw'n atal yr afiechyd sy'n achosi'r gwayw. Gellir defnyddio llawdriniaeth, ond nid yw bob amser yn helpu yn yr hirdymor.

Mae ysgogiad dwfn yr ymennydd yn opsiwn arall, sy'n defnyddio electrodau a osodir yn barhaol yn yr ymennydd. Yn ystod y driniaeth gwneir tyllau bach yn y penglog a rhoddir un electrod neu fwy yn y rhan o'r ymennydd sy'n achosi'r cryndod neu'r dystonia. Gosodir y gwifrau o'r electrod o dan groen y frest ac fe'u cysylltir â generadur curiad a osodir y tu mewn i'r corff. Mae cerrynt trydanol a anfonir o'r generadur curiad yn helpu i reoli'r cryndod neu'r dystonia.

## Beth y mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi penderfynu bod y driniaeth yn ddigon diogel ac yn gweithio yn ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod ysgogiad dwfn yr ymennydd yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth y mae'r driniaeth yn ei olygu?
- Felly beth yw'r manteision y gallwn eu cael?
- Pa mor dda yw fy siawns o gael y manteision hynny? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt o ddigwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth pe bai rhywbeth yn mynd o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Disgrifir rhai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE yn fras isod. Edrychodd NICE ar un adolygiad a phum astudiaeth.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn un astudiaeth, gwellodd y cryndod yn y cleifion a driniwyd gydag ysgogiad dwfn yr ymennydd am hyd at 27 mis, ond ni wellodd mesurau eraill o effeithiolrwydd. Fodd bynnag, mewn astudiaeth arall, gwellodd gweithgareddau bywyd bob dydd erbyn archwiliad dilynol 3 mis mewn cleifion oedd â chryndod.

Mewn 22 o gleifion oedd â dystonia, gwellodd ysgogiad dwfn yr ymennydd y symptomau (a fesurwyd gan ddefnyddio dau ddull gwahanol) am 12 mis o leiaf.

Canfu tair astudiaeth ar gleifion oedd â sglerosis ymledol fod ysgogiad dwfn yr ymennydd yn gwella cryndod. Fodd bynnag, mewn dwy astudiaeth nid oedd y gwelliant hwn, o reidrwydd, yn helpu cleifion gyda'u gweithgareddau bywyd bob dydd.

Roedd ymgynghorwyr arbenigol yn ansicr p'un a yw ysgogiad dwfn yr ymennydd yn gweithio yn y tymor hir, oherwydd gall y cryndod roi'r gorau i ymateb i'r ysgogiad trydanol.

### Risgiau a phroblemau posibl

Mewn un astudiaeth methodd y generadur curiad yn achos 6 o'r 12 o gleifion (50%). Mewn tair astudiaeth, dadleolodd yr electrod ysgogi yn yr ymennydd yn achos 6-15% o gleifion a thorrodd neu methodd y gwifrau mewn hyd at 6% o achosion. Bu'n rhaid i rai o'r cleifion hyn gael llawdriniaeth bellach i gywiro'r broblem.

Rhai o'r problemau a nodwyd oedd crynhoad tymor byr o hylif (edema) yn llabed flaen yr ymennydd, problemau ar groen y pen, haint o'r croen a chleisio'n agos at yr ysgogydd. Nid achosodd yr un o'r rhain unrhyw broblemau tymor hir.

Dywedodd yr ymgynghorwyr arbenigol bod rhai problemau posibl gyda'r driniaeth sef haint, gwaedu (gan arwain at barlys ar un ochr gyda'r corff o bosibl), methiant gyda’r offer, effeithiau ar y lleferydd, edema ar yr ymennydd a marwolaeth bosibl.

Dywedasant fod strôc, effeithiau ar rai o weithrediadau'r ymennydd (lleferydd, gweithrediad gwybodol [caffael gwybodaeth]), iselder ysbryd, hunanladdiad a pherygl o anaf yn ystod unrhyw ddelweddu atseiniol magnetig yn y dyfodol yn risgiau damcaniaethol.

## Rhagor o wybodaeth am gryndod a dystonia

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) hefyd roi cyngor a chymorth pellach i chi.

## NICE

Mae NICE yn llunio cyngor (canllawiau) i'r GIG ynglŷn ag atal, gwneud diagnosis a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae triniaeth ymyraethol yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn ymgynghorwyr arbenigol. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I ddysgu rhagor am NICE, ei waith a sut y mae'n dod i benderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau a anelir at weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd ar gael ar www.nice.org.uk/IPG188*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon drwy linell Ymateb y GIG (ffôn 0870 1555 455 a dyfynnwch y cyfeirnod N1106).*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 1-84629-278-6

N1106 1P Awst 06

© National Institute for Health and Clinical Excellence, August 2006. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.